# Ffordd Goedwig Cwmcarn – Cwestiynau cyffredin

1. **Beth yw oriau agor y Ffordd Goedwig trwy gydol y flwyddyn?**

| | |
|---|---|
| Y Pasg – mis Hydref | 10am–6pm (mynediad olaf 4pm) |
| Mis Tachwedd – Y Pasg | 10am–4pm (mynediad olaf 2pm) |

2. **Faint mae'n costio?**

   Mae'r prisiau isod yn cynnwys mynediad i nifer o fannau picnic a llwybrau cerdded hygyrch, meysydd chwarae ac ardal adrodd straeon gyda golygfeydd panoramig syfrdanol o Gymoedd De Cymru ac ar draws Môr Hafren.

   Mae'r tocyn hefyd yn galluogi parcio am ddim ar lawr y cwm (cofiwch arddangos eich tocyn ar y dangosfwrdd) os byddwch chi am gael tamaid i'w fwyta yng Nghaffi Raven's, ymweld â'r siop anrhegion neu fynd am daith hamddenol o amgylch y llyn.

| | |
|---|---|
| Car | £10 |
| Beic modur | £5 |
| Bws Mini (1-16 o seddi) | £18.50 |
| Coets (17+ sedd) | £35.00 |

3. **Oes modd cadw lle ymlaen llaw?**

   Yn anffodus, nid oes modd cadw lle ymlaen llaw.

4. **Sut ydw i'n talu?**

   Talwch wrth y rhwystr gydag arian parod neu gerdyn.

5. **Faint o amser mae'n ei gymryd i weld yr holl ffordd?**

   Mae'r ffordd yn 7 milltir o hyd ac mae'n cymryd tua 30 munud i'w chwblhau os na fyddwch chi'n stopio yn unrhyw un o'r meysydd parcio ar hyd y ffordd, yn dibynnu ar gapasiti. Mae'r ymweliad ar gyfartaledd yn para tua 2 awr.

6. **Pa mor hir allwn ni ei dreulio ar y ffordd?**

   Nid oes cyfyngiad ar ba mor hir allech chi ei dreulio ar eich ymweliad, mae croeso i chi aros o'r amser agor i'r amser cau (cofiwch wirio'r amseroedd cau ar ddiwrnod eich ymweliad).

7. **Mae'n rhaid i fi fynd adref gan fy mod i wedi anghofio rhywbeth, oes modd i fi adael a dod yn ôl yn nes ymlaen?**

   Yn anffodus, nac oes. Ar ôl i chi adael y ffordd, nid oes unrhyw ailfynediad (oni bai eich bod chi'n talu'r ffi mynediad eto).

8. **Nes i golli maes parcio; oes modd troi rownd a mynd yn ôl?**

Mae'r ffordd yn system un ffordd felly, yn anffodus, nac oes. Ar ôl i chi fynd heibio maes parcio neu olygfan benodol, nid oes modd i chi droi rownd na bacio'n ôl, felly cynlluniwch yn unol â hynny gan ddefnyddio'r map wedi'i ddarparu wrth y rhwystr. Fel arall, gallwch chi lawrlwytho copi o'r map o'n gwefan cyn ymweld â ni https://www.cwmcarnforest.co.uk/cy/activities/. Sylwer fod signal ffôn yn ysbeidiol mewn rhai lleoliadau felly rydyn ni'n cynghori ei lawrlwytho cyn ymweld â ni.

9. **Ydych chi'n cynnig tocynnau tymor?**

Ydyn, mae tocynnau blynyddol ar gael o'r Ganolfan Ymwelwyr. Mae angen rhif cofrestru'r cerbyd wrth ymgeisio ac nid oes modd ei drosglwyddo.
Y prisiau fesul cerbyd yw:-

| | |
|---|---|
| Car | £75 |
| Beic modur | £37.50 |
| Bws Mini (1-16 o seddi) | £125 |

10. **Oes modd i mi ddod â barbeciw?**

Oes, wrth gwrs. Mae gan ein meysydd parcio ardaloedd barbeciw pwrpasol (Meysydd Parcio 1, 3, 4 a 6), ond cofiwch barchu ein cyfleusterau a chael gwared ar eich barbeciw yn gywir yn y biniau wedi'u darparu.
NODER: Barbeciw tafladwy yn unig. NID yw barbeciw glo yn dderbyniol.

11. **A yw'r ffordd yn gwbl hygyrch?**

Rydyn ni'n falch o hysbysu ymwelwyr bod ein holl feysydd parcio ar hyd y ffordd newydd ei gwella yn gwbl hygyrch gyda mannau parcio dynodedig a thoiledau i'r anabl ym meysydd parcio 1, 3, 4 a 6.

12. **Pa gyfleusterau sydd ar hyd y ffordd?**

Mae toiledau a chyfleusterau newid cewynnau ar y ffordd. Rydyn ni'n gofyn i bob ymwelydd osgoi parcio mewn mannau parcio i'r anabl oni bai eich bod wedi'ch awdurdodi i wneud hynny.

13. **Beth fydd yn digwydd os ydw i'n cael fy nghloi mewn ar ôl amser cau?**

Mae'r mynediad olaf 2 awr cyn i'r ffordd gau, mae hyn yn caniatáu digon o amser i weld y ffordd. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi digon o amser i chi'ch hun i ymweld a chynllunio yn unol â hynny. Bydden ni'n eich cynghori chi i gyrraedd yr allanfa gydag ychydig funudau i'w sbario gan fod y rhwystr yn cael ei gloi'n brydlon ar yr amser cau priodol.
Bydd ein ceidwaid yn gwirio'r ffordd cyn cloi'r rhwystr, fodd bynnag, mewn digwyddiad annhebygol y byddwch chi wedi'ch cloi i mewn, cysylltwch â 07817 002874 i gael eich rhyddhau (bydd tâl o £40, yn daladwy cyn rhyddhau).

**14. Dyw'r tywydd ddim yn edrych yn wych, ydych chi ar agor?**

Yn ystod tywydd garw fel eira, niwl neu os yw'r ffordd yn arbennig o rewllyd, rydyn ni'n cadw'r hawl i gau'r ffordd heb rybudd oherwydd iechyd a diogelwch. Cadwch lygad ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol lle byddwn ni'n cyhoeddi newyddion, neu gysylltu â'r ganolfan ymwelwyr ar 01495 272001 ar ddiwrnod eich ymweliad.

**15. Rydw i am osgoi torfeydd, pryd yw'r amser gorau i ymweld?**

Mae gennym ni ddigon o leoedd parcio ar gyfer hyd at 120 o geir ar hyd y llwybr 7 milltir, ond os byddai'n well gennych chi brofiad tawelach, rydyn ni'n awgrymu cyrraedd yn gynnar ac osgoi amseroedd brig e.e. penwythnosau a gwyliau ysgol.

**16. Rydw i wrth y rhwystr ac mae ciw, ydych chi'n llawn?**

Mae gan y ffordd gapasiti o 120 o geir. Os ydyn ni'n cyrraedd hyn, byddwn ni'n gweithredu polisi un mewn, un allan.